



Cylch ymhell, glaw yn agos

Enfys o amgylch yr haul. Tynnais y llun o draeth Llanddwyn, Ionawr 28. Dyma'r tro cyntaf i mi weld y rhyfeddod yma. Eglurhad ?

llun a sylw: Alun Williams

A dyma'r eglurhad: *Lovely photo from Llanddwyn. It's a 22degree solar halo, formed by solar reflection on the ice crystals in the beautiful Cirrostratus cloud invading the sky from the southwest. The Cs cloud is the forerunner of the warm front that is trying to move into Wales today 29th, but is unable to make any further eastward progress because of the cold air sitting over the UK, thus the rain, now turning to snow. This is a classic battle between two air masses, mild moist Atlantic to the west, versus cold dry continental air to the east, and a classic situation for snowfall, It looks like the battle will go on for the next three days, but it looks this time as though the cold air will win and thus my prediction for a cold spell beginning at the start of February, (Thing is, how long will the cold last, all February? or just a week or so? Time will tell)* Huw Holland Jones

A dyma Twm Elias: Hyfryd iawn. Mi oeddwn i yn teithio i Faentwrog y bore hwnnw hefyd – bora Sadwrn, tua 8.45yb a'r haul, wrth imi fynd drwy Bryncir, newydd godi uwchben y Rhinogydd. Doedd 'na ddim cylch cyflawn fel hwn – ond draw ar yr ochr dde (tua lled dwrn o'r haul efo'r fraich yn estynedig), i gyfeiriad y de, ac ar yr un lefel a'r haul, roedd 'na bwt o enfys i'w gweld ar gwmwl bychan. 'Cyw drycin' ydi'r enw ar hwnnw ac yn aml iawn mi fydd dau ohonyn nhw – un bob ochr i'r haul. Dydi'r 'cyw drycin' ddim cweit mor bendant fel arwydd tywydd a'r 'cylch ymhell, glaw yn agos' welodd Alun ond mae'r enw 'cyw drycin' yn d'eud tipyn hefyd. Mae'r 'cylch pell...' (= enfys ar ffurf cylch wedi ei ffurfio o risialau rhew yn y cwmwl uchel Cirrostratus) yn arwydd da iawn (dros 90% sicr) bod storm ar ei ffordd. Mwy o wybodaeth yn y gyfrol: Am y Tywydd (2008), tud. 206.

A'r glaw a gafwyd wedyn? 29 Ion 1.1mm, 30 Ion 5.7mm (Waunfawr). Dywedodd Tom Jones am ardal Tremadog: Mae Sul 29 1 12 wedi bod yn un gwlyb iawn gyda eira ar y mynyddoedd.

Goleuni'r Gogledd (gweler Bwletin 23)

O gwmpas y 22 Ionawr eleni gwelwyd Goleuni'r Gogledd - *Aurora Borealis* - o Swydd Efrog. Dyma rai o gofnodion o'r ffenomenon:

Durham 6 Mawrth 1716: *"A most beautiful glory appeared over ye hearse [yn cario larll Derwennydd a ddiennyddwyd am ei ran yn ngrwrthryfel y Jacobit] wich all saw, sending forth respelendent streams of all sorts of colours to ye east and west, the finest I ever saw in my life. It hung like a delicate rich curtain & continued a quarter of an hour over ye hearse. There was a great light seen at night in several places & people flockt all night from Durham to see the corpse"...Lord Derwentwaters Lights - Aurora 1716* (..as described by an old family servant of Derwentwater)

Simons 2008: Since Records Began

18 Chwefror 1873: *About 1/4 past 10 at night we discovered the Aurora Borealis in the form of a broad, red and fiery belt, which extended from east to west across the welkin, the moon shining brilliantly at the same time. This the most beautiful and striking appearance of the Aurora I ever beheld. By 11 clock this awful meteorous phenomenon had disappeared. M. Libos attributes the aurora to the decomposition of the two airs which compose the atmosphere, oxygen and nitrogen, in the polar regions by an accumulation of the electric fluid there. This explanation is supported by a very accurate attention to the chemical phenomena produced in the atmosphere by electricity, which decomposes it and forms nitrous gas. At what time this meteor was first observed is not known.* Dyddiadur Peter Davis 1835-7 (The Diary of a Shropshire Farmer 2011, Amberley Books)

Cymru? 1769: *'A poem about the light seen lately in the sky', and a comet which appeared in 1769...with a plea to save England from Catholicism:*

Beth yw gwaith, r arwŷddion maith, sy'n lanwaith y leni?

Y Seren gynffon, ar goleuni;

Ond rhybŷdd hynod on trueni.

Gwelwn rybŷdd coeliwn rŷwbeth,

O air Duw'n dirion cyn bradwri'eth,

Dia y dâwo'i lidiog lâw, i's awŷr frâw, 'Syw'eth;

Fel pobl Ninif gwnawn wahaniaeth, [Jonah, iii. 10]

Mae Duw'n wir hael arbedwr helaeth. [Esay, iv. 7.]

THO. EDWARDS a'i cant 1770 (Twm o'r Nant)

It is unclear whether the ballads which cite the aurora borealis and comets relate to Welsh experience and sightings in Wales, or whether they are adapted from English sources. The situation is ambiguous, made all the more complex by the loyalist sentiments to Church and State expressed in the final verses of the majority of ballads and summer carols alike

Charnell-White, C. (heb ei gyhoeddi) *Literary Responses to extreme Weather in eighteenth Wales*



Llun: Wikipedia

“Regetta” Abersoch

14 Awst 1924. Regetta [sic] yn Abersoch. Gwllaw mawr tan amser te. Neb o yma yno.


Dyddiadur John Owen Jones, Ffermwr, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn.

[Cofnod Janet D Roberts: Amgylchiad arall a gofiat yn dda oedd ras gychod Abersoch, 'Regatta', a gynhelid bob blwyddyn ac sy'n dal mewn bri heddiw {1985}. Unwaith erioed y bum yno, tua'r flwyddyn 1909 neu 1910. Cofiat y byrddau gwerthu, 'Cheap Jacks' fel y'i gelwid. 'Rwy'n cofio hefyd am ddyn yn boddi yno, mab Carreg y Plas, Aberdaron, ond y cof mwyaf byw sydd gennyf yw gweld mab bach fy chwaer hynaf, a oedd ddwy flynedd yn iau na mi, yno mewn pram fawr a fy ffrog binc i amdano. 'Roedd bechgyn bach yn gwisgo ffrogiau ar ddechrau'r ganrif nes cyrraedd pump neu chwech oed. Ni wyddwn bod fy mam wedi rhoi'r ffrog binc i William ar ôl i mi dyfu allan ohoni, ond gwn i mi grio a gwneud stwr a cheisio tynnu'r ffrog oddi arno, nes oedd gan mam a fy chwaer gywilydd ohonof.]

Janet D Roberts (1985) O Ben Llŷn i Lle bu Lleu (Cyngor Gwlad Gwynedd)

O gyfrol Janet D. Roberts "O Ben Llŷn i Lle bu Lleu" (Cyngor Gwlad Gwynedd 1985)

Dweud dim...



...dim ond deud

Dyma'r cyfieithiad gwaelaf a welais erioed ger Neuadd Ratgoed, Aberllefenni, SH779120. Rydych yn glyfar iawn os gallwch ei ddeallt! Sarhad ar yr laith unwaith eto Ieuan Roberts

Tybed arwydd pa oes yw hwn, a phwy sydd yn berchen arno. Dywedwn ei fod yn werth ei gadw mewn Amgueddfa o leia.

Mae Prisiau da i'w gael am arwyddion fel hyn. Tom Jones

Y we-borwr

A research project used technology more commonly found in car sat-navs to shed light on species like the guillemot and razorbill. A more detailed picture has emerged at a time when seabirds are battling for survival. The research has revealed seabirds are travelling much further than had been thought in search of food.

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-16676405>

Steve Roddick



Wyau Chwefror

Scwp i chwi! Mae yn gamp i chwi ddweud beth welodd y wraig a minau o flaen y ty yma amser cinio [10 Chwefror 2012]. Dim llai na'r Durtur Dorchog hefo wy wedi mynd yn sownd ym mhlu ei bol ac yn dal yn gyfa. Roedd yn bwydo ar lawr pan gwelais hi. Na doedd hi ddim yn bosib cael llun fuodd hi ddim yno ddigon hir i estyn y camera a'i roi ymlaen nag roedd wedi hedfan yn ôl i'r nyth yn y Leilandai yng ngwaelod yr ardd.

Tom Jones

Soniodd Tom am hyn ar raglen Galwad Cynnar (Radio Cymru), a chafwyd yr ymateb hon gan Llion Gerallt, Llanrwst: "Ai fi oedd yn breuddwydio neu oeddech chi yn son am adar gyda wyau yn styc i'w boliau bore dydd Sadwrn. Dyma lun newydd ei dynnu o golomen?!? yn dioddef o'r un peth".

Oriel Gabriel



C'est vrai, il convient de penser à notre recyclage

Mae'n wir, mi ddylen feddwl am ein hailgylchu

Gabriel Quère

Llogryn

6 Chwefror 1950: Torri twll yng nghlust y llogryn prawn. Reit braf a sychu.

Dyddiadur John Owen Jones, Ffermwr, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn.

Gair newydd i mi. Tybed oes rhywyn allan yna wedi ei glywed. Llogryn efallai?. Tydw i ddim yn cofio pryd y daeth nod clust defaid i mewn ond welais i erioed un gyda twll. 'Bwlch tri torriad', 'torri blaen', 'holtt tua'r nol', 'toriad dan' ac yn y blaen fyddai nod defaid, 'bwlch plug' hefyd, a 'torri blaen'. Ambell un wedi torri hanner y blwmin glust - mis q oedd hwnnw. Yr unig beth fedra i feddwl am dano yw tyllu clustia lloia. Mi fyddai hyn yn cael ei wneud ers talwm. Tybed mae un llo oedd yma hefo cyn? Doedd dim arall yn cael twll yn ei glust ond lloia.

Tom Jones

Y digwyddiad tywydd rhyfeddaf erioed

30 Ionawr 1940: *Everything glass glazed. Each blade is coated has a rim of pure glass. Walking is like treading on stubble. The stiles and gates have a shiny green varnish of ice. The grass is brittle, all the twigs are cased in clear, brown cases and look thick but slippery, crystallised as if they were twigs of fruit as desert"*

Dyddiadur Virginia Woolf

[yn ei gyfrol "Under the Weather" roedd hwn yn "one of the most peculiar meteorological events ever to occur in Britain..cats were frozen on branches and birds died in mid flight as their wings became rigid"]

Beth oedd gan bobl eraill i ddweud am y tywydd y diwrnod hwn: Penbedw: Eira yn gorchuddio pobman ac yn ddiwrnod oer iawn.

Dyddiadur Parch J R Richards Gwenidog Brynrodyn, Groeslon a Glanrhylid

Llangristiolus, Bodorgan, Môn: Yr oedd fy nwylo bron a thorri yn dipiau y bore yma gan fod gwynt y dwyrain yn ofnadwy o oer. Bu plenau Germany yn ymladd a'n llongau pysgota a'n llongau golau ddoe a lladdwyd dau beth bynnag.

Llansilin, Dinbych: Dal yn galed gwynt o'r Dwyrain.

Dyddiadur Hugh Jones Blaenycwm. Llansilin, Sir Dinbych. 1900-1967

Hafaliad amser

Sylwodd amryw dros y flwyddyn newydd fel y mae'r dyddiau yn ymestyn fwy gyda'r wawr na'r na'r machlud. Gofynnwyd pam. Daeth yr ateb gan Aled Jones, Rhuthun trwy ddyfynnu o'r gyfrol hon

"General Astronomy" gan Sir Harold Spencer Jones (1951)

Another phenomenon well known in high latitudes is that the times of latest rising and earliest setting of the Sun do not occur on the shortest day. In such latitudes, the latest sunrise occurs some days after the winter solstice, the maximum difference being about 3 minutes. This is due to the change in the equation of time from day to day. Near the end of the year, the equation of time is increasing numerically at the rate of about 30 seconds per day. In an interval of one week, therefore, it increases nearly 4 minutes. Neglecting for the moment, therefore, the variation in the declination

Blaenau ddoe a heddiw

Daeth y llun hwn i ran Llên Natur oddiwrth Gareth Jones yn dilyn trafodaeth ar raglen "Galwad Cynnar" Radio Cymru ar goed - a oes diffyg ohonynt ynteu a ydyn nhw yn ymledu yn ein cefn gwlad?



Meddai Gareth: Diddorol clywed sgwrs am "ormod o goed" ar Galwad fore Sadwrn. Gwnaeth i mi gofio am y llun hwn. Yr oedd gennyf lun o Stiniog ar droad y ganrif ac es ati i dynnu un arall o'r 'union' fan, yn 2005. Mae yn drawiadol cymaint mwy o goed sydd yna bellach. (Yr adeilad mawr sydd i'w weld yn y llun gwreiddiol yw melin ble y gwneid byrddau ysgrifennu gyda llechfaen - fe'i llosgwyd mewn tân mawr yn 1912)

Gareth Jones

Daeth ymateb pellach i wefan Llên Natur gan Paul Williams: "Mae ein ty ni yn llun 2 (un o'r tri sydd dan sgaffald enfawr yng nghanol y llun, wedi'i guddio gan ffawydden ddeheuol roble, *Nothofagus obliqua*. Adeiladwyd y tai yma ym 1904). Tai Ffordd Wynne, Ffordd Barwn, estyniad Ysgol y Moelwyn, a'r ganolfan hamdden ydi'r ychwanegiadau amlwg eraill. Mae'r hanner acer sydd heb ddatblygu'n goedwig rhwng y tai ac Afon Bowydd, wedi bod dan gynllun 'adfer coedwig' Tir Gofal ers 10 mlynedd ac yn dagfa o fwyar erbyn hyn, efo ambell helygen. Yn anffodus, mae clymog Japan wedi sefydlu yn yr afon hefyd. Mae'r tir ar flaen y llun wedi newid hefyd (Ben Banc, rhan gynta' Cefn Trwsgl); yn drwch o redyn ungoes erbyn hyn, ac yn cael ei greithio'n flynyddol. Rhywbryd yn y ddau ddegawd ddwytha (dwi'n meddwl) codwyd ffens ar hyd ymyl y Garreg ddu (chwith y llun) ac fe dwchodd y grug yn arw, ond yn anffodus cafodd y llwyni Rhododendron eu traed yn y drws hefyd yn yr ardaloedd heb eu pori"


Heth fawr Môr y Canoldir - Chwefror 1956 a 2012

Marseille 8 Chwefror 2012: Llauer o eira wedi gorchuddio ardal Marseille yn y dyddiau dwytha. Nid ydynt wedi arfer efo tywydd fel hyn a -10 gradd canradd. Roedd y gwres canolog yn y gwesty wedi torri. O leia ges i ostyngiad ym mhris yr ystafell - dim ond 50 Euro am noson - a brewcwast am ddim.

Gwyn Williams

Wel go dda ti Gwyn - pawb yn haeddu bargaen weithia!


Dyma (chwith) oedd sefyllfa'r tywydd dros Ewrop ar yr 2 Chwefror eleni - sef y tywydd a arweiniodd at brofiad Gwyn. (yr isobarau glas yw'r tywydd oer).



Ond beth am 1956? Cafwyd y cyfeiriad hwn at rew mawr yn yr un cyffiniau y pryd hwnnw hefyd.

Tarassac, Provence: *Jusque vers 1914 un gros moulin à huile fonctionnait près de la rivière, a Tarassac. Dans mon enfance, il était en ruines, mais les vieux racontaient encore le dur travail du pressage à la main, qui évoquait la condition des esclaves, autrefois. Certains regrettent aujourd'hui l'arrachage des oliviers. D'autres leur repondent que de toute manière ils seraient morts de froid lors du grand gel de 1956.*

[Cyfieithiad: Hyd tua 1914 bu melin gwasgu olewydd fawr wrth yr afon yn Tarassac. Mae'r bobl hyn yn son o hyd am waith caled y gwasgu â llaw, atgof o'r caethweision gynt. Mae ambell un yn gresynnu i'r coed olewydd



Siart Synoptig 12 Chwefror 1956:

glas = oer

Mae'n debyg mai yn nechrau mis Chwefror y digwyddodd hyn - roedd hi'n -5°F (15°C) yn Sisili ar y 9 Chwefror. Dyma beth oedd yn digwydd yn ôl adref:


Ddechrau Chwefror cafwyd "severe blast of air of Siberian origin" (*The Weather of Britain* gan Robin Stirling 1982) a rhow am ddyddiau cyntaf y mis yn Sir Fôn yn ôl Elinor Jones, Ynys Acen Môn.

Gwylannod Adain-wen




Mae 'na fewnflifiad anferth o wylanod adain-gwyn i ogledd a Gorllewin Prydain wedi digwydd dros yr wythnosau dwytha' - sef gwylan y Gogledd (chwith) a gwylanod yr Arctic (gwaelod). Mae sawl un wedi eu gweld o gwmpas Gwynedd ganol mis Ionawr [2012]., ee. ym Mhontillyfni lle cafwyd hefyd gwylan kumlein. Un ddamcaniaeth am wylan Kumlein yw ein bod yn is-rywogaeth o wylan yr Arctig sydd yn byw yn Nwyrain Canada.

Rhys Jones



Siart Synoptig 3 Ionawr 2011 Swyddfa'r Met



A dyma sylw gan Huw Holland Jones (arbennigwr tywydd Llên Natur) yn dilyn ymholiad am ei graff (chwith) yn cofnodi cenllysg ers 2000? sydd yn dangos llawer mwy o genllysg ym mis Rhagfyr 2011 na chynt: "Yes, hail days well above average in Dec, probably about twice the average. This was owing to frequent runs of polar maritime air, mainly from a WNW direction. Pm air is well known for giving hail showers on the west facing sides of Britain in the winter months". Mae'r siart uchod yn dangos mai o ogledd Canada y daeth y gwynt.

Cniw



Llun: Ifor Williams

Cniw - gair a glywais ar lafar yn lleol ym maes adeiladu cychod. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, benthyciad o'r ffurf Saesneg Canol cnew ar y gair Saeneg knee. Cynhalbren.

Ifor Williams

Bi-jw...ti-tw



llun: Eifion Griffiths

West Wycombe, 29 Mai 1915: *On the margins of the wood, Bluebells were mobilised in serried ranks. Great Tits whistled in the language of our allies, 'Bijou, Bijou', and I agreed with every one of them.*

Dyddiadur WNP Barbellion: The Journal of a Disappointed Man 2010 Mae'n debyg mai ar ôl y gw-cw, yr enw ti-tw yw'r mwyaf dynwarddol o gân o blith ein hadar. Dim ond y titw mawr sydd yn galw ei enw yn berffaith fodd bynnag

Gaeaf 1947...mwy

Cafwyd son am aeaf caled 1947 ym Mwletin 48. Dyma John Lloyd Jones yn anfon ei atgofion o'r gaeaf hwnnw:



'Rwy'n cofio gaeaf 1947 yn dda - ar y pryd roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llanymddyfri ac yn byw yng Ngwynfe, pentref diarffordd wrth droed Y Mynydd Du (12milltir i ffwrdd). Ar ôl darllen profiad Betsi Roberts, Abergeirw es i chwilio am fy hen adroddiadau ysgol o'r cyfod. Synnais wrth ddarllen fy mod wedi bod yn absennol o'r ysgol cymaint o weithiau - 29 diwrnod (bron 6 wythnos) mewn tymor o 56 diwrnod. Mae'r ffigwr yma yn cyfleu caledwch y gaeaf hwnnw. Beth tybed fyddai ymateb rhieni heddiw sy'n feiniadol o ysgolion yn cau am ddiwrnod oherwydd eira i sefyllfa fel hyn.

John Lloyd Jones

A dyma (chwith) oedd y darogan ar ôl y gaeaf hwnnw

Diolch i Ifor Williams

Ticed i Afon Reil

SINGLE FARES.										
10	9	8	7	6	5	4	3	2	1	Caernarvon (Castle Square).
9	8	7	6	5	4	3	2	1	Auction Mart (R. G. Jones).	
8	7	6	5	4	3	2	1	Pen-y-bryn Lodge.		
7	6	5	4	3	2	1	Bontnewydd (P.O.).			
6	5	4	3	2	1	Firwd Cae Du and Menai View.				
5	4	3	2	1	Bethel Chapel and Pont Wernlasddu					
4	3	2	1	Rhostryfan (Tanrallt).						
3	2	1	Pen-y-Ffordd.							
2	1	Rhosgadfan (Muriau).								
1	Afon Reil.									
Upper Llandwrog (P.O.) and Cesarea.										

Enwau a chostau teithio ar fws yn 1931 rhwng Caernarfon a'r Fron, neu Cesarea neu Upper Llandwrog! Dwi'n credu mai o gwmpas SH504559 mae Afon Reil. Mae 'na gyfeiriad at Pont Reil ar wefan Cyngor Cymuned Llandwrog Mae reil yn golygu 'rail'. Mae yma olion rheilffordd chwarel neu

inclen yn croesi o dan y ffordd ger tŷ y diweddar Twm Trombone. Yr enw Afon Reil sydd o ddi-ddordeb yma: yn sicr mae o rhywle ar y ffordd sy'n mynd o Rosgadfan i'r Fron. "Watch this space!"

Ifor Williams

Gwylan punsh-a-jiwidi

Tywyn 23 Ionawr 1925:..today a Golden Plover secured a long worm, seen clearly dangling from its beak & was attacked and flushed at once by a gull close by. The plover dashed off & was hotly pursued, turning & twisting, the gull never got into touch with it & finally gave up the chase. Usually the plover [cornchwigen?] flock outnumbers the golden plover when feeding together or seen together in the air, but today the golden plover - at least 100, fed in field with only a few plover & gulls with them. **The squawk of a Blackhead is exactly the noise of a Punch & Judy figure when speaking.**

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele 1922-1942



llun Dewi....



llun Alun Williams

Pos y mis

Darllenwch yr hanesyn uchod am gri yr wylan benddu. Dyna beth yw'r aderyn yn y ddau lun. Pa bluf-wisg byddai'r dyddiadurwr wedi ei gweld - yr un ar y dde ynteu'r un ar y chwith? Deudwch pam.

Atebion fel arfer trwy "cysylltwch" neu Facebook ar y wefan erbyn 15 Mawrth (gyda'ch cyfeiriad post) i ennill eich tocyn llyfr o £10 (cyntaf i'r felin)

Ymateb John Lloyd Jones o Pelcombe, Sir Benfro i bós Bwletin 47 "Dim clem": "Ar ôl darllen sylwadau leuan rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn yn gyfarwydd a'r gair yn y cyswllt yma. Es ati i wneud ychydig o ymchwil a dyma ddau air o'r De..Clipsyn o Geredigion a rasen o Sir Benfro".

John Lloyd Jones

Bryan Jones ennillodd y tocyn llyfr mis diwethaf gyda'i ateb cywir MAFON am HIMBEEREN

O lygad y ffynnon...

Cododd cryn ddi-ddordeb ar y wefan mewn hen ffynhonnau. Bu Gareth Pritchard yn canolbwyntio ar ffynhonnau Pen y Gogarth, llandudno, a chasglwyd digon erbyn hyn i greu map.



Ffynnon Powell ym 1988




Ffynnon Powell, Ionawr 2012

Gelwid Ffynnon Powell wrth yr enw ers cenedlaethau lawer. Flynnydoedd yn ôl, ger y llecyn lle saif y ffynnon, roedd amaethwr bychan o'r enw Powel a'i deulu'n byw. O archwilio'r safle canfyddir yno olion hen adeiladau. Un haf, oherwydd prinder glaw, roedd sychder mor llym, nid yn unig fe ddi-ddordeb y gwartheg a'r defaid, ond profodd teulu'r Poweliaid hefyd gryn orthrwm. Oherwydd rhyw anghydfod gwrthododd y cymdogion helpu'r teulu hwn i gael cyflenwad o ddwr; fe'u rhybuddiwyd ar boen eu bywyd i beidio mynd ar gyfyl yr un ffynnon ar yr Orm. Yn wyneb hyn roedd y teulu druan mewn cryn helbul. Ystyried y teulu hwn yn bobol dduwiol a chrefyddol.

Wedi ystyried y sefyllfa'n ddwys, dyma nhw'n penderfynu gweddio ar Ddau am ymwared. Gadawodd y teulu cyfan eu cartref a mynd i Eglwys Tudno Sant gerllaw gan weddio am gymorth dwyfol yn eu hargyfwng. Dychwelasant i'w cartref â chalonnau trist. . . ond 'rol cyrraedd — er mawr lawenydd iddynt — roedd ffynnon o ddŵr bendigedig yn tarddu gerllaw rhiniog y tŷ. Roedd eu llawenydd y diwrnod hwnnw'n ddihysbydd, a glynodd yr enw 'Powel' ar y ffynnon hyd heddiw. HEDDIW Dyma'r cyfan sydd ar ôl o Ffynnon Powell! (yr ail lun) Fe sylwch bod 'Powell' yn cael ei sillafu gydag un 'l' gan Glyn Davies. Heddiw, fe welwch ddwy!

Gareth Pritchard

I gyrchu map llawn ewch i <http://llennatur.com/cy/node/90> a chwiliwch am FFYNNON. Yna cewch chwyddo'r map i weld y ffynhonnau, (ac mi gewch roi ychwaneg i fewn yn yr Oriel eich hunan).



Ad-daliad a Map Y GOGARTH FAWR yn dangos enwau ffynhonnau a lleoliad ffynnon